

Galwad agored am brosiectau: sut i gyflwyno datganiad o ddiddordeb

Gwneud cais am gyllid a chymorth ar gyfer 2018/2019

Cyfeirnod: nodwch y cyfeirnod

Perchennog y Ddogfen: Bwrdd Cyllid Strategol

Beth yw'r ddogfen hon

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad a fydd yn helpu ymgeiswyr wrth gwblhau'r datganiadau o ddiddordeb (DoD) ar gyfer arian neu gefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'n rhoi trosolwg o bwy all ymgeisio, y mathau o brosiectau yr ydym yn chwilio amdanynt, a'r hyn y gellir gwneud cais amdano. Mae hefyd yn cynnwys cyngor ar sut i gwblhau'r cwestiynau ar y ffurflen datgan diddordeb.

This guidance is also available in English
Mae'r canllaw hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau dielw cofrestredig sydd eisiau llunio a chyflwyno datganiad o ddiddordeb am gyllid, neu fathau eraill o gymorth anariannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym yn croesawu datganiadau o ddiddordeb yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hanes y Fersiwn

Fersiwn y ddogfen	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o newidiadau
1.0	11-2017	Cyhoeddwyd y ddogfen
2.0	12-2017	Eglurder ar arian cyfatebol t8 a t12

Dyddiad adolygu: 11-2019

I adrodd ar broblemau gyda'r canllaw hwn, gofyn cwestiynau a chyflwyno'ch datganiad o ddiddordeb wedi'i gwblhau, cysylltwch â'r tîm Cyllid Strategol yn FundingApplication@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Beth fyddwn ni'n ei gefnogi.....	4
Yr ardaloedd.....	5
Yr heriau.....	7
Proses y datganiad o ddiddordeb (DoD)	8
Y ffurflen DoD – canllaw ar gwestiynau'r ffurflen.....	11
Cwestiwn 1: Enw'r prosiect.....	11
Cwestiwn 2: Crynodeb o'r prosiect	11
Cwestiwn 3: Cymorth y gofynnir amdano gan CNC	11
Cwestiwn 4: Manylion yr ymgeisydd.....	11
Cwestiwn 5: Lleoliad y prosiect	12
Cwestiwn 6: Amserlen.....	12
Cwestiwn 7: Manylion ariannol	12
Cwestiwn 8: Cyflawni'r heriau.....	13
Cwestiwn 9: Ymwreiddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy	14
Cwestiwn 10: Cefnogaeth ar gyfer y prosiect	15
Cwestiwn 11: Profiad yr ymgeisydd.....	15
Cwestiwn 12: Y camau nesaf	16
Datganiad a gwrthdaro buddiannau	16
Sgorio datganiadau o ddiddordeb sy'n gofyn am gyllid	17
Atodiad 1: Heriau Cymru Gyfan	21
Atodiad 2: Yr ardal forol	23
Atodiad 3: Canolbarth Cymru.....	25
Atodiad 4: Gogledd-ddwyrain Cymru	28
Atodiad 5: Gogledd-orllewin Cymru	30
Atodiad 6: Canol De Cymru	32
Atodiad 7: De-ddwyrain Cymru	34
Atodiad 8: De-orllewin Cymru	36

Cyflwyniad

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan o fframwaith ddeddfwriaeth a pholisi newydd radical yng Nghymru. Mae'n ein herio i feddwl yn wahanol am sut yr ydym yn gweithio ac yn gofyn i ni weithio gyda'n gilydd i wneud newidiadau hirdymor.

Mae'r galwad agored hwn wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd a'r polisiau a'r prosesau sy'n deillio ohoni. Mae hyn yn cynnwys yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal sydd i ddod, a'r Aseidiadau Llesiant sy'n ymddangos, yn ogystal â Chynllun Morol Cymru, Amcanion a Datganiad Llesiant CNC, a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol arfaethedig.

Mae'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yn nodi rhai o'r heriau allweddol wrth gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r heriau hyn wedi cael eu hadlewyrchu yn y Polisi Adnoddau Naturiol a, thrwy'r polisi hwnnw, rydym yn cael ein hannog i feddu ar ymagwedd integredig wrth eu hateb – cyflwyno atebion naturiol, cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy, a meddu ar ymagwedd sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyflwyno amcanion ar y cyd sy'n gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Adeiladu ecosystemau mwy gwydn yng Nghymru
- Mwyafu'r manteision llesiant a gynigir gan amgylchedd naturiol mwy hygyrch a gwydn

Drwy wneud hynny, gallwn gyfrannu at bedwar cyfle pennawd y Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'n hadnoddau naturiol, sef:

- Cefnogi cymunedau mwy llwyddiannus a chynaliadwy
- Hyrwyddo twf ac arloesedd gwyrdd i greu swyddi cynaliadwy
- Cefnogi economi fwy effeithlon o ran adnoddau
- Cynnal cymunedau iach, egniol a chysylltiedig

Mae hyn wedi ein harwain at nodi'r angen am ymagwedd newydd. Un o'n nodau yw defnyddio'n ariannu fel cyfle i gael gwybodaeth am ffyrdd y gallwn reoli adnoddau naturiol sy'n adeiladu gwydnwch ecosystemau ac sy'n mwyafu'r llif o fanteision i bobl. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni weithio ag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid, a fydd efallai'n meddwl yn wahanol am adnoddau naturiol, a fydd yn gallu gweld cyfleoedd yn well, ac efallai a fydd yn gallu dylunio ymagweddau newydd i sicrhau y cyflawnir manteision lluosog. Nodir rhai o'r gwahaniaethau allweddol i gylchredau ariannu blaenorol CNC isod:

- **Canolbwyntio ar waith sy'n seiliedig ar leoedd.** Agwedd sylfaenol ar ein dull o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yw ein pwyslais ar weithio'n gydweithredol ar draws sectorau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell yn lleol. Yn aml, cymunedau sydd yn y sefyllfa orau i lunio a deall blaenoriaethau a chyfleoedd lleol ac i ddod o hyd i ddatrysiadau ymarferol sy'n cyflwyno'r buddion ehangaf. Rydym wedi alinio'r rhain i feysydd y Datganiadau Ardal sydd i ddod, fel y gallwn ddefnyddio'r broses hon i ddechrau sgwrs â rhanddeiliaid ynghylch y blaenoriaethau a'r cyfleoedd yn y lleoedd

hynny. Rydym yn disgwyl i brosiectau weithio ar raddfa briodol, felly lle nodir atebion mwy strategol, rydym yn awyddus i roi'r pwyslais ar Gymru gyfan.

- **Nodi heriau allweddol – nid datrysiadau.** Mae'r heriau penodol hyn yn gofyn am gamau gweithredu cydweithredol, na ellir eu cyflawni gan CNC yn unig. Rydym wedi ceisio osgoi nodi'n fanwl y mathau o brosiectau yr ydym eisiau eu gweld – oherwydd gall hyn rwystro'r datrysiadau arloesol sydd eu hangen i sbarduno newid go iawn. Rydym yn croesawu eich syniadau ar gyfleoedd cydweithio, datrysiadau neu ffocysau newydd sy'n dylanwadu ar yr heriau hyn.
- **Rydym wedi gwranddo ar ein rhanddeiliaid.** Rydym yn cydnabod bod cwblhau cais llawn yn broses hir ar gyfer y syniadau hynny y mae CNC yn annhebygol o fynd ymlaen i'w hariannu. Felly er mwyn ceisio lleihau'r baich gweinyddol, rydym wedi datblygu proses dau gam: DoD hawdd ei gwblhau er mwyn caniatáu i ymgeiswyr rannu eu syniadau gwreiddiol gyda ni, ac wedyn gwahoddiad i sawl un o'r rhain, a fydd yn cael eu gofyn i ddatblygu cais llawn am arian.
- **Adnabod ffyrdd eraill o gydweithio.** Yn y DoD, rydym hefyd wedi cynnwys cwestiwn ynghylch cymorth arall y gallech fod yn gobeithio ei gael gan CNC i gefnogi'ch cais - gan gydnabod bod rhai partneriaid yn gwerthfawrogi mynediad at dir a data yn ogystal â chyllid. Gallwch gyflwyno DoD hyd yn oed os nad oes angen unrhyw gyllid ar unwaith arnoch.
- **Ein hymrwymiad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.** Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y maen nhw wedi ystyried ac ymwreiddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn eu cynigion – bydd hyn yn cael ei sgorio.
- **Gweithio'n ailadroddol a meithrin cydweithio llwyddiannus.** Nod y broses DoD yw helpu i ddatblygu rhaglen gyllido ar gyfer prosiectau a fydd yn rhedeg tan ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Gan fod gwaith ymgynghori a datblygu'n parhau ar hyn o bryd ym mhrosesau'r Datganiadau Ardal a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, galwad dros dro yw hwn am brosiectau a syniadau ar gyfer cydweithio. Byddwn yn anelu at allu cefnogi rownd gyllido arall ar ddiwedd 2019 a fydd yn cael ei hysbysu gan y gwaith sy'n datblygu o gwmpas y Datganiadau Ardal a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Beth fyddwn ni'n ei gefnogi

Wrth gadw at egwyddorion rheoli cynaliadwy, rydym yn chwilio am DoD ar gyfer prosiect sy'n adlewyrchu graddfa briodol. Golyga hyn feddwl am achosion craidd y broblem a mynd i'r afael â nhw wrth eu tarddiad – lle mae gan ymyriadau'r effaith fwyaf. Efallai y bydd yn golygu meddwl am swyddogaethau'r ecosystem ehangach wrth raddfa dalgylch, tirwedd neu ranbarth, neu gall olygu datblygu offer newydd, ffyrdd newydd o weithio, neu ddefnyddio safonau ar raddfa genedlaethol.

Yn unol â'r dull gweithredu newydd hwn, bydd CNC yn ceisio cefnogi prosiectau pendant nad ydynt yn elfennau o raglenni gwaith parhaus yn unig. Fodd bynnag, gallai eich prosiect adeiladu ar syniadau blaenorol sydd wedi bod yn llwyddiannus, os yw'r dull gweithredu newydd yn newid y dull cyflawni, yr amcanion a'r canlyniadau.

Dylai prosiectau gael dyddiad dechrau a diwedd penodol, gyda chanlyniadau a dangosyddion sydd wedi'u diffinio'n glir.

Byddwn yn ystyried DoD sy'n nodi cymorth anariannol gan CNC. Gallai hyn gynnwys mynediad at dir neu ddata CNC.

Rhaid i brosiectau sy'n chwilio am gyllid ganolbwyntio ar un o'r heriau a nodwyd yn y canllaw hwn.

Fodd bynnag, yn unol â'n polisiau ariannol, **ni** allwn ystyried cyllido prosiectau sy'n cynnwys neu'n canolbwyntio ar unrhyw un o'r pethau canlynol:

- Cyllido gweithgareddau craidd sefydliad
- Unigolion
- Gwaith rheoli neu gynnal a chadw parhaus
- Gwaith y tu allan i Gymru
- Cyllido sefydliadau masnachol neu sefydliadau sy'n gwneud elw
- Costau cynnal a chadw ar hawliau tramwy cyhoeddus
- Pan ddaw mwy na 50% o'r cyllid ar gyfer prosiect o arian y Trysorlys neu gymorth gan y wladwriaeth
- Gwaith sy'n fwy priodol i asiantaethau neu gynlluniau eraill a phan fo'r prif nod yn fwy perthnasol i gorff cyllido arall, e.e. y Cyngor Chwaraeon
- Cynlluniau lle mae'r gwaith wedi'i gwblhau neu ar droed
- Astudio personol neu geisio ennill cymwysterau academaidd neu broffesiynol unigol
- Arolygu a chasglu data'n annibynnol
- Datblygu gwefannau
- Ymgynghoriaeth
- Gweithio o fewn cylch gwaith CNC

Yr ardaloedd


Mae'r galwad agored hwn yn gwahodd prosiectau ar y graddfeydd priodol ar gyfer yr ardaloedd daearyddol a gynigir ar gyfer y Datganiadau Ardal yn ogystal â phrosiectau Cymru gyfan.

Ar gyfer prosiectau strategol neu Gymru gyfan, rydym am weld yn arbennig cynigion sydd wedi bod yn arwyddocaol yn fwy na lleol, sydd wedi cael effaith ledled Cymru, a/neu sy'n gallu helpu i ddatrys heriau lefel uchel a wynebwr ledled Cymru, gan ddefnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth.

Er enghraifft, efallai y bydd y prosiectau mwy strategol hyn yn anelu at greu neu wella dystiolaeth, offer a dulliau o:

- ddeall y risg a'r buddion i lesiant;
- at ddeall a gwthio ymddygiadau;
- at adeiladu cydweithio a mecanweithiau'r farchnad sy'n ystyried gwerth ecosystemau a'u gwasanaethau'n well;
- ac at feithrin gwybodaeth a gallu i ddilyn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Datganiad Ardal yng Nghymru Area Statements in Wales



Gogledd-orllewin Cymru Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri
Gogledd-ddwyrain Cymru Sir y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych
Canolbarth Cymru Powys, Ceredigion
De-orllewin Cymru Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin Abertawe, Castell-nedd Port Talbot
De-ddwyrain Cymru Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili
Canol De Cymru Caerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr
Ardal forol
Prosiectau Strategol/Cymru gyfan

Yr heriau

Gwyddom na allwn ni weithio ar ein pen ein hunain i ddatrys y problemau yr ydym yn eu hwynebu, a bod angen i ni weithio'n agos ag eraill i lunio a chyflawni datrysiadau. Nid oes gennym syniadau gosodedig ynghylch sut olwg fydd ar y datrysiadau hyn a byddem yn croesawu eich syniadau a'ch arloesedd.

Gan edrych ar y dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru a'r sgysiau di-ri sydd ar droed ynghylch llesiant cenedlaethol a lleol, gan gynnwys ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi nodi rhai heriau allweddol. Mae'r rhain wedi'u haddasu ar gyfer pob ardal, gan gynnwys yr amgylchedd Morol, ac mae taflenni crynhoi (gweler Atodiadau 1–8) sy'n darparu mwy o gyd-destun seiliedig ar leoliad ar gyfer yr heriau hynny. Rydym hefyd wedi cynnwys naratif mewn cyswllt â phrosiectau mwy strategol a allai helpu i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd ar lefel Cymru gyfan.

Rhaid i'ch DoD ganolbwyntio ar un o'r heriau mewn ardal a nodir, neu ar lefel strategol. Rydym yn disgwyl er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol ac ystyried ffactorau bioddaearyddol, efallai y bydd angen i rai prosiectau groesi ffiniau ardal. Nodwch a yw'r prosiect yn seiliedig ar ardal, yn croesi ffiniau ardal, neu'n brosiect mwy strategol neu Gymru gyfan yn y DoD.

Heriau haen uchaf

A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd


C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles

Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu

Edrychwch ar Atodiadau 1–8 i ddeall mwy am yr heriau a nodwyd yn lleol. A allai eich prosiect helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Proses y datganiad o ddiddordeb (DoD)

Beth yw amserlenni disgwyledig y broses?



Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Mae'r galwad agored hwn i brosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol a sefydliadau dielw cofrestredig.

Yr hyn a olygir gan 'dielw' yw cyrff sy'n gweithredu am resymau heblaw am wneud elw, megis cyrff trydydd sector a gwirfoddol, a chyrff nad ydynt yn gwneud elw preifat i gyfarwyddwyr, aelodau neu randdeiliaid, ond sy'n hytrach yn ail-fuddsoddi eu helw yn ôl yn y sefydliad.

Wedi dweud hynny, rydym yn gwybod er mwyn gallu bodloni'r heriau rydym wedi'u nodi, bydd angen gweithio gyda rheolwyr tir, busnesau ac ar draws sectorau eraill lle mai creu incwm yw eu prif nod. Os felly, rydym yn disgwyl i DoD amlinellu sut y bydd y grwpiau hyn yn cymryd rhan, a sut mae rheolau caffael wedi cael eu hystyried, yn enwedig os disgwylir i unrhyw arian gael ei gyfnewid o ganlyniad i'r prosiect.

Beth yw'r gyfradd ymyrraeth?

Yn achos cymorth ariannol, cyfradd ymyrraeth o 50% gall CNC ei chynnig. Golyga hyn y bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno 50% o arian cyfwerth i dalu am gyfanswm costau'r prosiect. Gall y 50% o arian cyfwerth gynnwys amser gwirfoddolwyr a staff, ond ni all hyn gyfateb â mwy na 40% o'r gyfanswm costau'r prosiect. Rhaid i o leiaf 10% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfraniad gan y partner arweiniol, a ddaw o'u cronfeydd anghyfyngedig a glân hwy eu hunain.

Faint o gyllid sydd ar gael a faint gellir gwneud cais amdano?

Ni fydd CNC yn darparu cyllid o lai na £10,000, felly cyfanswm cost lleiaf prosiect fyddai £20,000. Nid ydym wedi nodi terfyn ar gyfanswm cost prosiect, ond disgwylir i'r gystadleuaeth fod yn gryf a byddwn yn ystyried gwerth am arian wrth adolygu datganiadau o ddiddordeb. Rydym yn gobeithio cael portffolio amrywiol da o brosiectau ym mhob ardal.

Mae oddeutu £3 miliwn ar gael ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd a chenedlaethol dros 18 mis y galwad agored hwn.

Byddwn yn defnyddio'n sgorio i asesu dyraniad mwyaf addas yr arian, fel ein bod yn cefnogi prosiectau sy'n bodloni egwyddorion a meini prawf y cynllun orau. Byddwn yn chwilio i sicrhau bod gennym ledaeniad cyfartal a da o brosiectau ym mhob ardal yn ogystal â phrosiectau mwy strategol sy'n galluogi newid sylweddol wrth gyflwyno rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Faint o fanylion sydd eu hangen ar y ffurflen hon?

Mae hwn yn gam o'r DoD. Rydym eisiau ennyn dealltwriaeth o'ch syniadau prosiect, pa heriau y byddwch chi'n mynd i'r afael â nhw, a sut ydych yn bwriadu gwneud hynny. Mae angen inni wybod pa fath o gymorth yr ydych yn dymuno gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru amdano, naill ai cyllid, mynediad i dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a/neu fathau eraill o help a chefnogaeth y gallem eu cynnig.

Mae gan bob blwch ar y ffurflen DoD gyfanswm cyfrif geiriau. Cadwch at y cyfanswm hwn os gwelwch yn dda, oherwydd ni fydd unrhyw wybodaeth ar ôl y cyfrif geiriau yn cael ei chyfri fel rhan o'r sgorio.

Gallwn dim ond derbyn mapiau fel gwybodaeth atodol yn ystod y cam hwn. Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn, bydd cyfle i gynnwys rhagor o wybodaeth ac atodiadau yn ddiweddarach.

Sut ydw i'n cyflwyno datganiad o ddiddordeb?

Llenwch y ffurflen DoD yn electronig [ychwanegwch ddolen]. Dogfen Word yw hon er hwylustod.

E-bostiwch eich DoD cyflawn wedi'i lofnodi at:

FundingApplication@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ni allwn dderbyn datganiad o ddiddordeb ar ôl 11.59pm ar ddydd Sul, 14 Ionawr 2018.

Mae croeso i ymgeiswyr gyflwyno eu datganiad o ddiddordeb yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gyflwyno fy natganiad o ddiddordeb?

Bydd eich DoD yn cael ei asesu a'i sgorio gan banel o CNC. Cyllideb gyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y rownd hon, felly ni fyddwn yn gallu cyllido'r holl DoDa gyflwynwyd. Gallai hyd yn oed syniadau prosiect da iawn gael eu gwrthod oherwydd bydd y gystadleuaeth yn frwd.

Bydd DoD sy'n chwilio am gymorth ariannol, ac sydd â photensial yn nhyb CNC, yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Gallai'r gwahoddiad hwn fod yn seiliedig ar ofyn i chi ystyried

datblygu fersiwn o'ch datganiad o ddi-ddordeb sydd angen llai o gyllideb. Byddwn yn cynnig adborth i'r ymgeisydd ar ôl cam y datganiad o ddi-ddordeb i'w gefnogi i ddatblygu'r cais. Bydd mwy o ganllawiau ar gael ar gyfer cyfnod y cais llawn. Bydd yr wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen yn ystod yr ail gyfnod yn cynnwys:

- Dadansoddiad ariannol llawn, cadarnhad o arian cyfatebol, cyfraniadau mewn ffyrdd eraill ac arian arall, rhagolygon llif arian ac yn y blaen
- Mae'r holl ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau wedi cael eu rhoi, lle y bo angen
- Cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a pholisi CNC, gan gynnwys polisi'r amgylchedd, y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, Safonau'r Iaith Gymraeg, a deddfwriaeth diogelu data ac iechyd a diogelwch.

Byddwn yn ceisio rhoi cyngor annibynnol i bob prosiect mewn modd teg a thryloyw. Ni fydd unrhyw gyngor a roddir ar y prosiectau hyn yn golygu ein bod yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor. Bydd ail broses asesu i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau llawn, a fydd yn cael eu hasesu yn ôl eu rhinweddau.

Gobeithir hysbysu'r rhai hynny â cheisiadau llawn llwyddiannus ar ddiwedd gwanwyn 2018 fel bod y prosiectau'n gallu cael eu rhoi ar waith yn ystod haf 2018.

O le alla i gael mwy o help?

Mae mwy o ddogfennau, gan gynnwys y ffurflen DoD, a chyngor ar gael ar ein tudalennau gwe.

Ceir nifer o ddolenni defnyddiol trwy gydol y canllaw hwn hefyd.

Os oes gennych ymholiad cyffredinol, e-bostiwch:

FundingApplication@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Os oes gennych ymholiad ariannol, e-bostiwch:

grants.enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

I gael cyngor ar ardaloedd, cysylltwch â:

Ardal	Cyswllt
Strategol/Cymru gyfan	FundingApplication@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Morol	Kathryn Hughes Kathryn.hughes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Canolbarth Cymru	Linda Ashton linda.ashton@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gogledd-ddwyrain Cymru	Paul Mitchell paul.mitchell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Gogledd-orllewin Cymru	Alun Price Alun.Price@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Canol De Cymru	Miki Miyata-Lee miki.miyata-lee@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Chris Heaps chris.heaps@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
De-ddwyrain Cymru	Sarah Tindal sarah.tindal@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Sarah Coakham sarah.coakham@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
De-orllewin Cymru	Aled Davies aled.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu Glyn Jones glyn.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Y ffurflen DoD – canllaw ar gwestiynau'r ffurflen

Cwestiwn 1: Enw'r prosiect

Darparwch deitl byr dros dro ar gyfer y prosiect, 25 o lythrennau ar y mwyaf.

Cwestiwn 2: Crynodeb o'r prosiect

Ticiwch yr her y mae eich prosiect yn canolbwyntio arni.

Gwnewch yn siŵr bod hyn yn nodi beth yw'r prosiect yn gryno ond yn glir, pa heriau fyddai eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw, eich datrysiadau a'r canlyniadau.

Uchafswm o 250 o eiriau.

Cwestiwn 3: Cymorth y gofynnir amdano gan CNC

Cliciwch y blwch i ychwanegu 'X' i ddangos pa elfennau yr ydym am wneud cais amdanynt yn y DoD hwn.

Yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol â rhanddeiliaid, gall CNC weithiau gynnig adnoddau eraill i brosiectau ar y cyd ar wahân i ariannu. Byddem yn hoffi ceisio cefnogi'r dull hwn, cyn belled â bod adnoddau ar gael a'i fod yn cydymffurfio â pholisïau CNC.

Ychwanegwch ychydig o wybodaeth am y cymorth yr ydych yn gofyn amdano yn y blwch testun. Gallai hyn gynnwys:

- Mynediad i ddata a gwybodaeth CNC – [Mae llawer iawn o ddata eisoes ar gael ar ein gwefan](#) ond, os oes angen cefnogaeth ychwanegol arnoch i gael mynediad, cymorth gyda dehongli setiau data, neu ni allwch ddod o hyd i'r hyn mae ei angen arnoch, ychwanegwch wybodaeth at y setiau data a fyddai o gymorth i'ch prosiect.
- Mynediad i dir a reolir gan CNC. Os oes angen mynediad arnoch i dir a reolir gan CNC, yna nodwch yn glir pa dir yr hoffech gael mynediad iddo ac a oes gennych gytundeb presennol ai peidio gyda CNC i gael mynediad i'r tir hwnnw, neu unrhyw dir arall. Rydym yn sylweddoli y gall cytundeb i gael mynediad i dir fod yn hwy na 18 mis ac, os gofynnir i'r DoD fynd yn ei flaen, mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei drafod yn y cyfnod ymgeisio llawn. (Dylid nodi nad yw'r opsiwn i gyflwyno cynigion prosiect ar dir a reolir gan CNC yn gyfyngedig i'r galwad agored hwn; mae'r ffurflenni 'Coetir a Chi' presennol yn parhau i fod ar gael ar hyn o bryd ar [wefan CNC](#).)

Cofiwch nad yw rhai ardaloedd o dir a reolir gan CNC yn gymwys ar gyfer prosiectau cymunedol. Bydd angen ystyried Cynlluniau Dylunio Coedwigoedd, mynediad, ac iechyd a diogelwch cyn y gellir gwahodd ymgeiswyr i symud ymlaen at y cam nesaf.

Cwestiwn 4: Manylion yr ymgeisydd

Hwn yw'r person cyswllt a'i swydd o fewn eich sefydliad, a'r unigolyn y bydd gohebiaeth yn cael ei chyfeirio ato.

Mae cyfle yma hefyd i ddewis eich iaith ddewisol ar gyfer gohebiaeth ffurfiol yn y dyfodol.

Cwestiwn 5: Lleoliad y prosiect

Dyma le bydd gweithgarwch y prosiect yn cael ei gynnal. Nodwch os yw'r prosiect yn croesi ffiniau ardal.

Ychwanegwch wybodaeth fel y bo'n briodol, e.e. gan ddefnyddio cod post neu gyfeirnod grid. Mae croeso i chi ychwanegu map i'r blwch hwn neu fel atodiad. Os yw eich prosiect dros nifer o leoliadau, efallai bydd gennych nifer o fapiau/cyfeirnodau grid – ychwanegwch bob un sy'n berthnasol.

Prosiectau lleol

Rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag un her, ond gallant hefyd gyfrannu at eraill.

Gall prosiect syrthio o fewn un ardal Datganiad Ardal neu groesi nifer o ardaloedd. Pan fydd hyn yn digwydd, gallai'r datganiad o ddiddordeb gael ei ystyried gan y ddau banel asesu.

Os hoffech weithio ar nifer o safleoedd ar draws lleoliadau, mae angen i chi ddangos bod unrhyw weithgarwch aml-safle yn eglur fel un prosiect.

Mae'n bwysig bod y prosiect yn cael ei gynnal ar raddfa briodol – boed hynny ar lefel pentref neu lefel dalgylch, er enghraifft. Bydd hyn yn ystyriaeth yn y broses sgorio (gweler C9 isod).

Prosiectau Strategol / Cymru Gyfan a Morol

O ran prosiectau sy'n mynd i'r afael â heriau'r polisi morol a strategol/Cymru gyfan nad ydynt â safle penodol i'w bennu, bydd angen i chi nodi hyn yn y blwch.

Cwestiwn 6: Amserlen

Rydym yn chwilio am brosiectau sy'n para hyd at 18 mis o hyd yn y galwad hwn. Bydd angen cwblhau pob prosiect erbyn mis Rhagfyr 2019.

Cwestiwn 7: Manylion ariannol

Dim ond yn berthnasol os ydych yn gwneud cais am gyllid yn y galwad hwn.

Rhowch syniad i ni o gostau disgwylid y prosiect, y swm yr ydych yn gofyn amdano gan CNC, a'r ffynonellau cyllido arfaethedig eraill.

Gall CNC cynnig cyfradd ymyrraeth o 50%. Golyga hyn y bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno 50% o arian cyfwerth i dalu am gyfanswm costau'r prosiect. Gall y 50% o arian cyfwerth gynnwys amser gwirfoddolwyr a staff, ond ni all hyn gyfateb â mwy na 40% o'r gyfanswm costau'r prosiect. Rhaid i o leiaf 10% o gyfanswm costau'r prosiect fod yn gyfraniad gan y partner arweiniol, a ddaw o'u cronfeydd anghyfyngedig a glân hwy eu hunain.

Cronfeydd anghyfyngedig : Cronfeydd y gall y sefydliad eu gwario fel y credant yn briodol heb unrhyw gyfyngiadau ar sut y maent yn gwario'r arian.

Cronfeydd glân : Cronfeydd nad ydynt eisoes yn cael eu defnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect arall.


Os bydd eich DoD yn cael ei ddewis i fynd ymhellach, byddwn yn gofyn i chi am ddadansoddiad llawn o gyllideb eich prosiect, y rhaglen waith a'r dyddiadau hawlio disgwylidig fel rhan o'r cais llawn. Ni all y ffigur yn eich cais llawn fod yn fwy na'r ffigur a nodir yn y DoD hwn.

Mae CNC yn cadw'r hawl i gynnig cyllid sy'n wahanol i'r manylion neu'r symiau ariannol a nodir yn y ceisiadau.


Cwestiwn 8: Cyflawni'r heriau

Rydym eisiau gwybod sut bydd eich cynnig yn gwneud gwahaniaeth i'r her yr ydych wedi'i dewis. Gan ddefnyddio'r model rhesymeg ar y ffurflen, cwblhewch y blychau gwag i ddangos y camau yn eich prosiect. Mae'r her yr ydych eisiau mynd i'r afael â hi yn mynd yn y blwch cyntaf, yna dechreuwch gyda'r blwch 'Effeithiau' a gweithio am yn ôl i ddangos eich ffordd o feddwl fesul cam. Dylai hyn ddangos y bydd y camau y bydd eich prosiect yn eu cymryd yn cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau ac effeithiau mwy hirdymor.

Defnyddiwch uchafswm o 30 o eiriau ym mhob blwch.



Ffigur 1: Model Rhesymeg Cyffredinol



Ffigur 2: Enghraifft o dabl rhesymeg a gyfrifwyd

Defnyddiwch y blwch testun mawr i ychwanegu mwy o fanylder. Dylai hyn gynnwys sut mae eich prosiect a/neu bartneriaeth mewn safle da i fynd i'r afael â'r her hon a pha ddulliau newydd rydych chi'n eu cyflwyno, a dylid cynnwys tystiolaeth i ddangos y bydd eich prosiect yn gweithio. (Gallai [dogfen Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#) CNC ddarparu ychydig o gyd-destun defnyddiol.)

Terfyn cyfrif geiriau 250.










Dewiswch un her leol y bydd eich prosiect yn cyfrannu tuag ati. Mae angen inni wybod sut a pham rydych chi'n credu y bydd eich cynnig yn gwneud gwahaniaeth.

Cwestiwn 9: Ymwreiddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

A allwch chi egluro

- i) sut mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi helpu i lywio a ffurfio eich prosiect hyd yma, a
- ii) sut byddwch yn ceisio ymwreiddio'r egwyddorion wrth fynd ymlaen?

Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion ar hyn ar ein gwefan a'n llyfryn '[Cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy](#)'.

Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy		
	Rheoli ymaddasol	Rheolwch yn ymaddasol trwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo'n briodol, newid y camau gweithredu
	Graddfa	Ystyriwch y raddfa ofodol briodol ar gyfer y camau gweithredu
	Cydweithio a chymryd rhan	Hyrwyddwch a chymerwch ran mewn cydweithio a chydweithredu
	Cyfranogiad cyhoeddus	Gwnewch drefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau
	Tystiolaeth	Ystyriwch yr holl dystiolaeth berthnasol, a chasglwch dystiolaeth o ran elfennau ansicr
	Manteision amryfal	Ystyriwch fuddion a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
	Hirdymor	Ystyriwch ganlyniadau camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor
	Camau gweithredu ataliol	Cymerwch gamau gweithredu i atal difrod arwyddocaol i ecosystemau
	Meithrin gwydnwch	Ystyriwch wydnwch ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau • y cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau • graddfa ecosystemau • cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth) • gallu ecosystemau i addasu

Terfyn cyfrif geiriau 500.

Cwestiwn 10: Cefnogaeth ar gyfer y prosiect

Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phartneriaid eraill, y gymuned leol, a grwpiau eraill â buddiant mewn datblygu syniad eich prosiect? Amlinellwch unrhyw ymgynghoriad, gwaith ymchwil neu dystiolaeth sy'n berthnasol i'ch prosiect. Ydych chi wedi cael unrhyw ymgysylltiad â CNC? Sut bydd y cydweithio'n cryfhau'r prosiect ac yn eich helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r her?

Terfyn cyfrif geiriau 500.

Cwestiwn 11: Profiad yr ymgeisydd

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein cyllid yn cael ei reoli'n dda a'i fod yn cael effaith parhaol. Cyn y gallwn gyflwyno unrhyw gynigion o gyllid, rydym yn cynnal nifer o wiriadau diwydrwydd dyladwy a chredyd er mwyn sicrhau bod gan sefydliad y gallu ariannol i redeg y prosiect arfaethedig ac i gynnal unrhyw asedau neu etifeddiaeth wedi i'r grant ddod i ben.

Eglurwch yn gryno yma unrhyw brofiadau blaenorol sydd gan eich sefydliad o brosiectau tebyg. Neu, os ydych yn sefydliad newydd, amlygwch y prosesau a'r llywodraethu y bydd gennych ar waith i reoli'r prosiect arfaethedig. Amlinellwch yn gryno hefyd beth fydd yn digwydd ar ddiwedd eich prosiect – sut bydd y gwaith yn gynaliadwy neu'n cael ei reoli yn

fwy hirdymor? Mae rhwymedigaeth cynnal a chadw o ddeng mlynedd yn amodau ein grant terfynol a byddwn yn cynnal ymweliadau monitro ar ôl rhoi cyllid.

Beth fyddai'r effaith o **beidio** â chael y grant hwn?

Terfyn cyfrif geiriau 500.

Cwestiwn 12: Y camau nesaf

Amlinellwch sut fydddech yn mynd â'r prosiect o'r cam DoD i'r cais llawn. Oes angen unrhyw ganiatadau/cydsyniadau ar eich prosiect, e.e. cynllunio, trwydded rhywogaethau ac ati? Rhestrwch unrhyw dasgau y byddai angen i chi eu cwblhau neu gyllid sydd angen i chi ei gael. Nodwch na fydd cydsyniadau neu ganiatadau'n cael eu rhoi'n awtomatig gan CNC os byddwch yn cael cyllid wedi'i ddyrannu i chi gan CNC. Bydd angen i chi gynnwys amser priodol yng nghynllun eich prosiect ar gyfer hyn. Bydd yn amod o'r cyllid bod yn rhaid cael pob caniatâd a chydsyniad cyn i'r prosiect ddechrau.

Datganiad a gwrthdaro buddiannau

Cadarnhewch fod yr holl ddatganiadau yn wir, cwblhewch y datganiad gwrthdaro buddiannau ac yna cwblhewch y pedwar blwch sy'n cadarnhau'r dyddiad/enw/sefydliad a swydd y llofnodwr.

Nodwch y gallai CNC ganslo unrhyw grant a ddyfernir os na fyddwch yn datgan gwrthdaro buddiannau posibl.

Os ydych yn defnyddio llofnod electronig, rhaid i'r ffurflen gael ei hanfon o gyfeiriad e-bost eich cyfeiriad. Peidiwch ag anfon eich cais o gyfeiriad e-bost personol.

Sgorio datganiadau o ddiddordeb sy'n gofyn am gyllid

Gweler isod meini prawf sgorio Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer datganiadau o ddiddordeb sy'n gofyn am gyllid. Bydd datganiadau o ddiddordeb sy'n gofyn am gymorth anariannol yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau eu hunain, ac yn ôl yr adnoddau sydd ar gael.

Pwnc cwestiwn	Cyfnod y datganiad o ddiddordeb	Sgorio	Pwysoliad
Enw'r prosiect	Heb ei sgorio		
Crynodeb o'r prosiect	Heb ei sgorio, er gwybodaeth yn unig		
Manylion yr ymgeisydd	Rhaid iddo fod yn awdurdod lleol neu'n sefydliad dielw	Os nad yw'n ddielw – peidiwch â pharhau	
Lleoliad y prosiect	Rhaid i'r effaith fwyaf gael ei gweld yng Nghymru	Os yw'r holl effaith i'w gweld y tu allan i Gymru – peidiwch â pharhau	
Amserlen	Rhaid i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019		
Gwybodaeth ariannol	Dim ond gwybodaeth amlinellol yn ystod cyfnod y datganiad o ddiddordeb	Os gofynnir am fwy na 50% gan Cyfoeth Naturiol Cymru – peidiwch â pharhau	
Cymorth arall y gofynnir amdano gan Cyfoeth Naturiol Cymru	Gwybodaeth amlinellol ar y datganiad o ddiddordeb	Heb ei sgorio, er gwybodaeth yn unig	
Cyflawni'r heriau	A yw'r prosiect wedi nodi her? A yw'r ymgeisydd wedi dangos yn foddhaol ei fod yn deall yr her ac wedi egluro sut bydd ei gynnis yn cyfrannu at yr her? A yw'r cynnis yn ystyried y materion a'r gweithgareddau lleol a nodwyd yn yr atodiadau? A yw'r ymgeisydd wedi defnyddio tystiolaeth dda i gefnogi ei gynnis?	Sgôr: 1. Dim her wedi'i nodi 2. Ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r her ac o sut y gallai'r prosiect helpu 3. Ymateb anghyflawn/annigonol 4. Ymateb da, sy'n dangos dealltwriaeth o'r her ac yn nodi cyfraniad y prosiect 5. Yn dangos yn glir sut bydd y prosiect yn mynd i'r afael â'r her, gyda thystiolaeth ategol gref	X3
Ymwreiddio egwyddorion	Pa mor dda mae'r prosiect wedi ystyried egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn	Sgôr:	X3

<p>rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>	<p>gynaliadwy yn ei ddatblygiad? A yw'n bosibl deall sut y mae cymhwyso'r egwyddorion hyn yn rhoi gwahanol ddimensiwn i'r prosiect hwn o'i gymharu â'r math 'arferol' o brosiect? Beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen? A yw'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wedi'u hymwreiddio yn y prosiect? A yw'r dystiolaeth wedi'i defnyddio'n dda i gefnogi'r prosiect? A yw'r partneriaid wedi'u nodi ac a yw'r rolau'n glir?</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Dim dealltwriaeth na chymhwysiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 2. Ychydig iawn o ddealltwriaeth o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 3. Ymateb anghyflawn/annigonol, yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth ond angen llawer mwy o waith 4. Ymateb da, gan ddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion – gellid ei ddatblygu ymhellach 5. Yn arddangos yn gadarn ac yn drwyadl sut mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u cymhwyso a sut y byddant yn cael eu cymhwyso yn y prosiect – defnydd da o dystiolaeth 	
<p>Cefnogaeth ar gyfer y prosiect</p>	<p>Faint o gefnogaeth sydd i'r cynnig gan y gymuned leol, rhanddeiliaid perthnasol, partneriaid ac ati? A yw'r partneriaid perthnasol posibl wedi'u nodi ac yn ymgysylltiedig? Sut bydd partneriaid yn ychwanegu gwerth at y prosiect neu'n cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r prosiect? Oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i gefnogi'r prosiect, e.e. defnyddio'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol?</p>	<p>Sgôr:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nid oes unrhyw gymorth gan gyrff eraill wedi'i nodi 2. Rhai partneriaid wedi'u henwi, ond dim manylion na thystiolaeth o'r cymorth 3. Ymateb boddhaol a'r cymorth wedi'i nodi, angen gwneud mwy o waith i bennu rolau a buddion y bartneriaeth 4. Ymateb da, cymorth clir gan eraill, a chyfleoedd i ddatblygu ac egluro yn ystod y cyfnod nesaf 5. Disgrifiad cynhwysfawr a llawer o dystiolaeth o'r cymorth a'r ymrwymiad gan bartneriaid eraill, gyda buddion clir a gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid 	<p>X2</p>
<p>Profiad yr ymgeisydd</p>	<p>A oes gan yr ymgeisydd profiad o redeg prosiectau tebyg neu a yw'r ymgeisydd yn gallu dangos bod ganddo fesurau ar waith i reoli unrhyw risgiau? Gall hyn fod yn gymesur â maint y prosiect arfaethedig. A oes gan yr ymgeisydd fesurau mwy hirdymor ar waith i sicrhau etifeddiaeth y cymorth prosiect gan CNC? Beth fyddai'r effaith o beidio â chael y grant hwn?</p>	<p>Sgôr:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dim profiad blaenorol a dim mesurau ar waith i reoli'r risgiau 2. Ychydig o brofiad blaenorol a rhai mesurau rheoli risg wedi'u nodi 3. Profiad blaenorol o redeg prosiectau, gyda mesurau ar waith i reoli risg 4. Partner profiadol sydd wedi dysgu gwersi o brosiectau blaenorol o faint a natur debyg 	<p>X1</p>

		5. Partner profiadol a llwyddiannus sydd wedi cyflawni prosiectau penigamp. Effaith arwyddocaol os na ddarperir grant	
Y camau nesaf	A yw'r ymgeisydd yn glir ynghylch sut i ddatblygu'r datganiad o ddiddordeb i fod yn gais llawn? A oes camau realistig wedi'u nodi, gan gynnwys elfennau dibynnol (e.e. cyllid, partneriaid, caniatadau)? A yw'r amserlenni'n realistig?	Sgôr: 1. Dim ystyriaeth go iawn o sut y bydd y prosiect yn datblygu 2. Ychydig iawn o wybodaeth neu wybodaeth annigonol am y camau nesaf 3. Ymateb boddhaol, ond dim digon o dystiolaeth/manylion/hyder 4. Manyllder da ynghylch sut bydd y prosiect yn symud ymlaen 5. Disgrifiad clir, cynhwysfawr a realistig o'r camau nesaf	X2
Datganiad	Angen ei lofnodi		

Amrediad sgorio (gyda phwysoliad): Rhwng 0 a 55

Trothwyon sgorio:

Uchel – ystyried cais llawn os yw'r cyllidebau'n caniatáu (cyntaf i'r felin i gael y cyllid): dros 44

Canolig – angen mwy o waith gydag arweiniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd y gyllideb yn caniatáu: sgôr rhwng 33 a 44

Isel – gwrthod. Dim yn gymwys am gyllid. 33 neu is

Bydd prosiectau sydd wedi cael sgôr canolig neu uchel yn cael eu hystyried gyda'i gilydd yn y panel/i perthnasol. Yn gyffredinol, byddwn yn ceisio llunio portffolio cytbwys o brosiectau a fydd, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael â'r heriau gwahanol rhwng ardaloedd ac ar lefel Cymru gyfan ac a fydd yn galluogi newid wrth gyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru

Atodiad 1: Heriau Cymru Gyfan



Ar gyfer prosiectau strategol neu Gymru gyfan, rydym yn benodol am weld cynigion sydd ag arwyddocâd mwy lleol, effaith ar Gymru gyfan ac/neu sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â heriau lefel uchel ledled Cymru, gan ddefnyddio'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth.

Er enghraifft, efallai y bydd y prosiectau mwy strategol hyn yn anelu at greu neu wella tystiolaeth, offer a dulliau o ddeall y risg a'r buddion i lesiant; at ddeall a gwthio ymddygiadau; at adeiladu cydweithio a mecanweithiau'r farchnad sy'n ystyried gwerth ecosystemau a'u gwasanaethau'n well; ac at feithrin gwybodaeth a gallu i ddilyn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae newid ymddygiad, mynd i'r afael â bylchau sylweddol mewn tystiolaeth, a ffyrdd arloesol ac integredig o weithio'n faterion trawsbynciol. Felly, rydym yn croesawu'n arbennig brosiectau sy'n mynd i'r afael â materion yn unrhyw un o heriau Cymru gyfan yn y tabl isod.

Heriau Lefel Uchaf	Heriau Cymru Gyfan
A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llyfogydd a llygredd	1. Lleihau effeithiau defnydd/rheoli tir ar amgylchedd dŵr ac ecosystemau ehangach. Rydym yn chwilio am brosiectau cydweithredol sy'n defnyddio atebion naturiol i bennu a mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau craidd a chynyddu gwydnwch ecosystemau.
	2. Ymagweddau arloesol i fynd i'r afael â methiant statws corff dŵr, e.e. o ganlyniad i effaith defnydd tir ar ddŵr, i ddarparu tystiolaeth i bennu ymagweddau cost-effeithiol i wella ansawdd dŵr a chynefinoedd dŵr, sy'n cyflwyno amrywiaeth o fanteision.
	3. Cefnogi ymagweddau ar gyfer annog gostyngiad mewn defnydd dŵr neu atal llygredd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol.
	4. Ymchwil/ymchwiliadau i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i ddarparu'r wyddoniaeth orau posib i lywio datblygiad polisïau yn y dyfodol, ymagweddau a chynghor technegol ynghylch defnyddio tir, a gwella dealltwriaeth o'r risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau daearol a dŵr yn gynaliadwy.
	5. Datblygu'r sail dystiolaeth forol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell drwy roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sydd ar ffurf ddrafft, ar waith. Mae meysydd allweddol yn cynnwys dealltwriaeth well o ddsbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau pwysig; cyfleoedd a bygythiadau i lesiant cymunedau arfordirol; a chyfleoedd ar gyfer galluogi adfer ecosystemau morol drwy'r broses cynllunio morol.
B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy	1. Mentrau sy'n galluogi adfer, rheoli gwell, cysylltedd neu fynd i'r afael â phwysau allweddol ar yr ecosystemau canlynol â blaenoriaeth (cynefinoedd a rhywogaethau): mawndiroedd (iseldir ac ucheldir), twyni tywod, afonydd, coetiroedd, glaswelltiroedd.

well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd	2. Syniadau ar gyfer newid neu ymagweddau newydd a fydd, yn y pendraw, yn arwain at wella bioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol, e.e. gwella'r cysylltedd rhwng manau gwyrdd trefol a gwledig, rheoli neu wella manau gwyrdd a seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac yn y cyffiniau, sicrhau bod y cysylltiadau'n ymwneud â llesiant.
	3. Arloesedd a anelir at fynd i'r afael â'r pwysau canlynol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth yn negyddol: <ul style="list-style-type: none"> • Llygredd aer: Dyddodiad nitrogen • Newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd • Llygredd dŵr gwasgaredig • Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol • Rheoli pori a da byw • Rhywogaethau estron goresgynnol a phathogenau • Newidiadau dynol i gyflyrau hydrologig • Rheoli coetir • Rheoli cynaliadwy sy'n helpu i liniaru effeithiau mynediad a gweithgareddau hamdden mewn ardaloedd sensitif
	4. Prosiectau neu gynlluniau sy'n archwilio <u>atebion naturiol</u> i wella cyflwr ein hecosystemau a lleihau a rheoli'r pwysau a'r galw ar ecosystemau ac adnoddau naturiol yn well.
	5. Prosiectau sy'n arwain at well dealltwriaeth o ddisbarthiad rhywogaethau, anghenion rheoli, addasiadau i amodau hinsoddol sy'n newid, effeithiau llygredd aer, a'r cysylltiadau â llesiant.
C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles	1. Cyflwyno newidiadau i ymddygiad sy'n rhoi manteision y gellir eu dangos i fwy o bobl fod yn egniol yn yr awyr agored yn fwy aml, yn canolbwyntio'n arbennig ar bobl o grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru a defnyddwyr anfyfych yr awyr agored.
	2. Cyflwyno mentrau dysgu a sgiliau awyr agored o ansawdd uchel sy'n rhoi manteision llesiant corfforol a meddyliol cysylltiedig i gyfranogwyr.
	3. Mentrau sy'n asesu a/neu sy'n rhoi newidiadau ymddygiad ar waith a anelir at gael mwy o bobl i gysylltu â'r awyr agored a bod yn fwy egniol ynddo ac y gellir eu cymhwyso'n fwy eang.
	4. Galluogi mynediad i'r amgylchedd naturiol a'i wella mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac o'u hamgylch, gan annog pobl yn y lleoliadau hynny i ddefnyddio'r awyr agored i wella eu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant.
Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu	1. Mentrau sy'n helpu cymunedau i fod yn fwy gwydn, gan gyfrannu at ddysgu, sgiliau a llesiant economaidd cymunedau ac unigolion, gan gynnwys defnydd arloesol o dir Cyfoeth Naturiol Cymru.
	2. Mentrau sy'n cefnogi'r economi dwristiaeth drwy gysylltu twristiaeth â rheoli tirweddau o safon yn gynaliadwy. (Gall hyn gynnwys defnydd arloesol o dir Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu mynediad a chyfleoedd hamdden lle mae tystiolaeth o'u hangen.)
	3. Mentrau sy'n datblygu economi fwy cylchol gan ganolbwyntio ar leihau defnydd o adnoddau a defnyddio adnoddau naturiol sawl gwaith cyn defnyddio gwastraff mewn modd cyfrifol.
	4. Meithrin gwybodaeth, cymhwysedd technegol neu ddealltwriaeth well o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wneud penderfyniadau eraill mewn sectorau eraill fel y caiff gwerth ecosystemau a'u gwasanaethau ei ystyried yn llawn a chaiff bioamrywiaeth ei chynnal a'i gwella.

Am fwy o wybodaeth am Heriau Cymru Gyfan, e-bostiwch FundingApplication@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk a byddwn yn ceisio gofyn eich cwestiwn i'r tîm Cyfoeth Naturiol Cymru perthnasol.

Atodiad 2: Yr ardal forol



Rydym yn croesawu prosiectau sy'n ymwneud â'r ardal forol sydd â datrysiadau i fynd i'r afael â'r heriau canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau morol
<p>A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd</p>	<p>1. Camau gweithredu ymarferol i ddatblygu addasiad arfordirol er mwyn gwella gwydnwch cymunedau ac ecosystemau arfordirol mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a lefelau môr sy'n codi, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni astudiaeth o'r opsiynau i gyflawni addasiad arfordirol ar gyfer polisiau Cynllun Rheoli Traethlin mewn lleoliadau lle y mae angen newid y rheolaeth (o 'ddal y lein' i 'ddim ymyrraeth weithredol' neu 'adluniad wedi'i reoli') • Datblygu a gweithredu strategaethau i gynllunio ar gyfer adluniad wedi'i reoli yn y dyfodol • Archwilio opsiynau ar gyfer datblygu datrysiadau seiliedig ar natur ar gyfer erydu a pherygl llifogydd <p>2. Camau gweithredu i hyrwyddo mynediad a gweithgareddau morol ac arfordirol cynaliadwy a chyfrifol, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu tystiolaeth o raddfa gweithgareddau hamdden a defnydd ymwelwyr, o ran lle ac amser, ledled amgylchedd morol ac arfordirol Cymru, gan gynnwys datblygu dulliau casglu a dadansoddi data cyson
<p>B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd</p>	<p>1. Camau gweithredu i gynyddu gwydnwch amgylchedd morol Cymru, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hwyluso'r gwaith o adfer cynefinoedd morol sydd wedi dirywio • Hwyluso'r gwaith o greu cynefinoedd • Atal difrod i / lleihau'r effeithiau ar ecosystemau morol


	<p>2. Camau gweithredu ymarferol i ddatblygu addasiad arfordirol er mwyn gwella gwydnwch cymunedau ac ecosystemau arfordirol mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a lefelau môr sy'n codi, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynd ati i greu cynefin arfordirol i wneud iawn am golledion y wasgfa arfordirol a fydd yn digwydd o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr <p>3. Camau gweithredu i hyrwyddo mynediad a gweithgareddau morol ac arfordirol cynaliadwy a chyfrifol, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu dealltwriaeth o effeithiau gweithgareddau hamdden a defnydd ymwelwyr ar y nodweddion gwarchoddedig yn rhwydwaith ardaloedd gwarchoddedig arfordirol a morol Cymru • Treialu dulliau newydd o leihau'r niwed i nodweddion cynefinoedd neu leihau'r tarfu ar rywogaethau yn rhwydwaith ardaloedd gwarchoddedig arfordirol a morol Cymru
<p>C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles</p>	<p>1. Camau gweithredu i hyrwyddo mynediad a gweithgareddau morol ac arfordirol cynaliadwy a chyfrifol, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog twf cynaliadwy gweithgareddau hamdden cyfrifol yn yr amgylchedd morol ac arfordirol • Datblygu dealltwriaeth o effeithiau gweithgareddau hamdden a defnydd ymwelwyr ar y nodweddion gwarchoddedig yn rhwydwaith ardaloedd gwarchoddedig arfordirol a morol Cymru • Treialu dulliau newydd o leihau'r niwed i nodweddion cynefinoedd neu leihau'r tarfiad ar rywogaethau yn rhwydwaith ardaloedd gwarchoddedig arfordirol a morol Cymru <p>2. Camau gweithredu i wella llesiant cymunedau arfordirol trwy fynd i'r afael â sbwriel morol, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu datrysiadau arloesol a chydweithredol i fynd i'r afael â sbwriel morol – er enghraifft, prosiectau peilot i atal ffynonellau sbwriel, hyrwyddo newid mewn ymddygiad, a mynd i'r afael â sbwriel yn yr amgylchedd • Adeiladu sail dystiolaeth i danategu'r camau gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel morol, gan gynnwys deall y gwahanol ddatrysiadau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o sbwriel
<p>Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu</p>	<p>1. Camau gweithredu i gefnogi a hyrwyddo busnes cynaliadwy yn yr amgylchedd morol, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu neu wneud cynnydd ar dechnolegau/dulliau sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol • Archwilio modelau busnes sy'n cefnogi twf glas cynaliadwy • Annog newid mewn ymddygiad (e.e. dewis y defnyddiwr) er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd yn yr amgylchedd morol

I gael rhagor o wybodaeth am heriau'r ardal forol, cysylltwch â:

Kathryn Hughes

Kathryn.hughes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad 3: Canolbarth Cymru



Mae ardal Canolbarth Cymru yn cynnwys siroedd Ceredigion a Phowys, gan gynnwys rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a saif ym Mhowys.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau lleol
<p>A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Nid yw'r camau gweithredu sy'n cefnogi gallu ein cynefinoedd naturiol i ddarparu amrediad o wasanaethau, megis bioamrywiaeth, storio carbon a rheoli risg llifogydd naturiol, yn cael eu gwredu i'r eithaf. Mae adfer a gwella'r cynefinoedd hyn yn allweddol i wireddu'r buddion hyn. 2. Camau gweithredu sy'n tanategu systemau afon dŵr croyw glân sy'n gweithio'n dda a rheolaeth cynefinoedd afonol, ac sy'n rheoli perygl llifogydd naturiol. 3. Camau gweithredu sy'n arwain at lai o achosion o lygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle sydd wedi deillio, er enghraifft, o amaeth a gweithfeydd plwm hanesyddol yn afonydd ac isafonydd Canolbarth Cymru, gan wella ansawdd dŵr traeth/ymdrochi pan fo effaith ar gymunedau, twristiaeth a bywyd gwylt. 4. Camau gweithredu sy'n hybu dealltwriaeth o fuddion y camau gweithredu hyn. Gellid cyflawni hyn trwy ddarparu enghreifftiau penodol o arfer da. 5. Camau gweithredu i gynnal/adfer stociau o eogiaid a sewin mewn perygl.
<p>B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Camau gweithredu sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac sy'n hybu gwydnwch ecosystemau, gan gynnwys mynd i'r afael â cholli cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Mae hon yn broblem ledled yr ardal sydd angen sylw ar raddfa briodol. Er enghraifft, mae'r blaenoriaethau isod yn rhai a nodwyd yng Nghynllun Adfer Natur Lleol Powys a blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (er ein bod yn cydnabod y bydd y rhestr hon yn newid dros amser) a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: <ol style="list-style-type: none"> a. Mae'r cynefinoedd â blaenoriaeth a nodwyd ym Mhowys a Cheredigion yn cynnwys:

	<p>Rhostiroedd, perthi a chynefinoedd llinellol megis ymylon ffyrdd, clogwyni a llethrau morol, rhosydd a mawndiroedd yr ucheldir, coetiroedd derw yn yr ucheldir, coetiroedd bach brodorol a rhannol naturiol, perllannau traddodiadol, afonydd a nentydd, tir fferm, cyforgorsydd, caeau yn yr iseldir, tir coedwigol yn yr iseldir, rheoli rhywogaethau goresgynnol.</p> <p>b. Mae'r rhywogaethau â blaenoriaeth a nodwyd ym Mhowys a Cheredigion yn cynnwys:</p> <p>Dolffin trwyn potel, llamhidydd, ysgyfarnog frown, llygoden y dŵr, britheg berlog, brân goesgoch, dyfrgi, britheg y gors, tegeirian llydanwyrdd, gwiwer goch, llysywen bendoll yr afon, cimwch bodiog gwyn, eog yr Iwerydd, brithyll, morgrugyn coch y coed, morgrugyn blewog (neu Gogleddol), pathew.</p> <p>2. Bydd gweithredoedd ar gyfer rhywogaethau sy'n rhyngwladol bwysig yn y Canolbarth lle mae cyfiawnhad hefyd yn cael eu hystyried</p> <p>3. Cydnabyddir fod bobl yn gwerthfawrogi ac yn poeni am yr hyn y maen nhw'n ei wybod ac yn ei ddeall. Mae angen camau gweithredu sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hybu dealltwriaeth well o'r amgylchedd naturiol lleol a phwysigrwydd gwella gwydnwch cynefinoedd a rhywogaethau cysylltiedig trwy reolaeth. Gellid cyflawni hyn trwy ddarparu enghreifftiau penodol o arfer da.
<p>C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles</p>	<p>Mae gweithgareddau hamdden egniol a mynediad i'r awyr agored yn cyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol. Anogir prosiectau ar ein tir ac yn y cefn gwlad ehangach:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Prosiectau sy'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol trwy gynyddu'r cyfleoedd i fwynhau mannau gwyrdd naturiol. 2. Camau gweithredu i hyrwyddo Canolbarth Cymru fel lle i fwynhau'r amgylchedd naturiol amrywiol. 3. Camau gweithredu i hybu dealltwriaeth o fuddion gweithgareddau hamdden egniol a mynediad i'r awyr agored i iechyd a lles. 4. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo gwerth yr amgylchedd naturiol trwy addysg a dehongliad. 5. Camau gweithredu sy'n ymhél pobl i reoli eu mannau awyr agored lleol mewn modd sy'n gyfeillgar i fywyd gwylt, gan gynyddu bioamrywiaeth a chysylltedd.
<p>Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu</p>	<p>Mae Canolbarth Cymru wedi'i nodi fel lle sydd angen twf mewn cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy. Ein hamgylchedd yw un o'n hasedau mwyaf yng Nghanolbarth Cymru, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored amrywiol a thwristiaeth antur. Rydym eisiau gwneud y defnydd gorau o'n hasedau naturiol a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny. Byddem yn croesawu ceisiadau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol yn gynaliadwy i ddatblygu gweithgareddau, atyniadau a swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru.</p> <p>Mae swyddi sy'n talu'n dda ac sydd â gobeithion gyrfaol a chyflenwad o lafurwyr medrus yn broblem ac yn her allweddol yng Nghanolbarth Cymru. Er</p>

enghraifft, gall cysylltiadau gwell â phrifysgolion, datblygu sgiliau coedwigaeth cynaliadwy, twristiaeth bywyd gwylt, genweirio, gweithgareddau awyr agored egnïol, rheoli tir ac arallgyfeirio ffermydd mewn modd cynaliadwy i gyd chwarae rhan bwysig mewn cynyddu'r economi wledig.

1. Mae angen camau gweithredu sy'n adeiladu'r sgiliau a'r cyfleoedd gwaith cywir er mwyn sicrhau bod defnyddio'n hamgylchedd naturiol mewn modd cynaliadwy yn hanfodol i economi sy'n ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am heriau'r canolbarth, cysylltwch â:
Linda Ashton, Uwch Bartneriaeth, Swyddog Mynediad a Hamdden.
E-bost: linda.ashton@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk .

Atodiad 4: Gogledd-ddwyrain Cymru



Mae ardal gogledd-ddwyrain Cymru yn cynnwys siroedd Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau gogledd-ddwyrain Cymru
<p>A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd</p>	<p>1. Camau gweithredu i fynd i'r afael â'r broblem o lifogydd cyfyngedig yn berthnasol i nifer fawr o gymunedau yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Croesewir mentrau i fabwysiadu dull mwy rhagweithiol a chynaliadwy i reoli adnoddau dŵr.</p> <p>Mae blaenoriaethau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> prosiectau sy'n hybu cau ffosydd mewn ardaloedd ar yr ucheldir, rheoli perygl llifogydd mewn modd naturiol, a chynlluniau draenio trefol cynaliadwy mewn cymunedau trefol / cymunedau ar gyrion tref yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Mae prosiectau sy'n arwain at reoli llif dŵr yn well yn briodol yn yr ardal hefyd. Mae cynlluniau bach sy'n arwain at leihau'r effeithiau niweidiol ar boblogaethau o bysgod a llyswennod yn flaenoriaeth.
<p>B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd</p>	<p>1. Camau gweithredu sy'n deall bod colli bioamrywiaeth yn parhau i fod yn broblem fawr yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Rhai o'r rhesymau dros y dirywiad parhaus hwn mewn bioamrywiaeth yw cysylltedd cyfyngedig, diffyg rheolaeth gynaliadwy y tu allan i safleoedd a warchodir, a'r angen i ddal ati i gynnal a chadw a gwella safleoedd a warchodir yn yr hirdymor (mewn cyfnod â llai o adnoddau ariannol).</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r cynefinoedd â blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer yr ardal yn cynnwys glaswelltiroedd, morfeydd heli, gwastadeddau llaid, coetiroedd brodorol, coed hynafol a pherthi. Mae'r rhywogaethau â blaenoriaeth ar gyfer yr ardal yn cynnwys yr eog a'r sewin, llygoden y dŵr a'r wiwer goch. <p>Mae prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â cholli'r cynefinoedd a'r rhywogaethau blaenoriaethol hyn ac sy'n cyfrannu at gynnal gwydnwch ecosystemau yn hanfodol ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru.</p>

	<p>2. Camau gweithredu i reoli rhywogaethau goresgynnol estron ar safleoedd a warchodir a safleoedd o werth cymunedol. Mae rheolaeth barhaus o rywogaethau estron o blanhigion ac anifeiliaid yn her fawr ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyma'r rhywogaethau â blaenoriaeth y dylai prosiectau fynd i'r afael â nhw: jac y neidiwr, clymog Japan (dalgyloedd afonydd), cotoneaster estron (glaswelltiroedd calch) a rhywogaethau o goed planhigfeydd (rhostiroedd a chorsydd yr ucheldir), minc a'r wiwer lwyd.
<p>C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles</p>	<p>Mae gan ogledd-ddwyrain Cymru rwydwaith cynhwysfawr o fannau gwyrdd naturiol hygyrch yn ei chymunedau. Mae'r rwydwaith yn cynnwys parciau gwledig, gwarchodfeydd natur lleol, coridorau bywyd gwyllt, coetiroedd cymunedol a mannau gwyrdd anffurfiol.</p> <p>Mae aber Afon Dyfrdwy yn darparu cyfleoedd di-ri ar gyfer profi'r amgylchedd naturiol yn Sir y Fflint. Gwasanaethir cymunedau arfordirol Sir Ddinbych yn dda gyda mannau gwyrdd yn yr ardaloedd trefol / ardaloedd ar gyrion trefi. Mae gan bentrefi trefol Wrecsam nifer o fannau gwyrdd a pharciau, ac mae coridorau bywyd gwyllt a rheilffyrdd nas ddefnyddir yn gysylltiedig â'r rhain yn aml. Yn ne'r ardal, mae Safle Treftadaeth y Byd yn darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer cysylltedd ecolegol a gwell mynediad cyhoeddus rhwng cymunedau a safleoedd cefn gwlad yn Wrecsam a'r sir gyfagos, Sir Ddinbych.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rydym yn chwilio am gamau gweithredu sy'n sicrhau bod y mannau gwyrdd naturiol hyn yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, eu hybu a'u gwella. Byddai prosiectau sy'n gwella hygyrchedd a chysylltedd yn gwella llesiant yn fawr ac yn hybu cymunedau iach, egniol a chysylltiedig.
<p>Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu</p>	<p>Mae adnoddau dŵr yn parhau i fod â rôl arwyddocaol yn economi gogledd-ddwyrain Cymru. Mae defnydd nad yw'n gynaliadwy, a chamau gweithredu sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd dŵr, yn effeithio'n uniongyrchol ar yr economi ac yn arwain at fwy o gostau ac aneffeithlonrwydd. Mae ansawdd dŵr ymdrochi'n hanfodol i'r economi dwristiaeth ar yr arfordir. Yn fewndirol, mae gwell ansawdd dŵr yn annog twristiaeth a gweithgareddau hamdden sy'n seiliedig ar ddŵr, sy'n ddau sbardun economaidd pwysig yn yr ardal.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae camau gweithredu sy'n hyrwyddo addysg, hyfforddiant a chamau gweithredu ymarferol yn golygu lleihau achosion o lygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle a ddaw o ganlyniad i weithgareddau amaethyddol a domestig yn y ddau brif dalgyloch, sef Afon Dyfrdwy ac Afon Clwyd. 2. Mae camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r llygredd gwasgaredig ar is-afonydd Afon Dyfrdwy ac sy'n lleihau'r achosion o lygredd a achosir trwy ddefnyddio plaladdwyr o fewn y dalgyloch ehangach yn flaenoriaeth. Mae prosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth o'r llygredd amaethyddol gwasgaredig sy'n effeithio ar ansawdd dŵr Afon Clwyd a rhannau cysylltiedig i lawr yr afon, gan effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi'r Rhyl. Mae llygredd yn y tarddle sy'n ymwneud â thanciau carthion a chysylltiadau gwastraff domestig hefyd yn broblem sydd angen mynd i'r afael â hi trwy fentrau hyfforddi ac addysg well.

I gael rhagor o wybodaeth am heriau gogledd-ddwyrain Cymru, cysylltwch â:

Paul Mitchell

Arweinydd Tîm Rhanbarthol (Partneriaethau a Chefn Gwlad

E-bost/E-mail: paul.mitchell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad 5: Gogledd-orllewin Cymru



Mae ardal gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau gogledd-orllewin Cymru
<p>A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru trwy leihau allyriadau a rheoli parthau arfordirol. Gan ddefnyddio lleoliadau a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Traethlin fel rhai sy'n wynebu newid yn y tymor byr a'r tymor canolig, datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r heriau a'r rhwystrau i addasu'r arfordir a gweithio i ddatblygu datrysiadau. 2. Camau gweithredu sy'n cynnwys prosiectau rheoli ucheldiroedd mawr, lle mae tystiolaeth glir o ymglymiad cymunedol a buddion posibl ar gyfer rheoli llifogydd afonol a chynefinoedd afonol a rheoli carbon pridd. 3. Camau gweithredu sy'n diogelu'r ardal, gan gynnwys mynd i'r afael ag achosion tipio anghyfreithlon lleol a gwella ansawdd dŵr y traeth / dŵr ymdrochi pan mae'n effeithio ar gymunedau a thwristiaeth.
<p>B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Amddiffyn a chynnal gwydnwch ecosystemau – gan gynnwys mynd i'r afael â cholli cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol ar safleoedd gwarchodedig ac i ffwrdd o'r safleoedd hyn. <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynefinoedd blaenoriaethol ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys: afonydd, arfordir (morfeydd heli a gwastadeddau llaid), ucheldiroedd a mawndiroedd, ffeniau, coetiroedd derw, coetiroedd ynn, a phalmentydd calch. • Y rhywogaethau â blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer yr ardal yw: brain coesgoch, ystlumod, pathewod, grugieir, adar y bwn, llygod y dŵr, a dyfrgwn. 2. Camau gweithredu i reoli rhywogaethau goresgynnol brodorol ac estron ar safleoedd gwarchodedig a safleoedd o werth cymunedol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau eraill yn y rhaglen hon.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhywogaethau â blaenoriaeth yn cynnwys: Rhododendron ponticum, jac y neidr, clymog Japan, gwiwer lwyd, minc, cotoneaster estron ar safleoedd calch, a rhywogaethau goresgynnol estron o fewn cynefinoedd dŵr croyw.
<p>C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Prosiectau sy'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn gwella iechyd a lles. Mentrau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol i helpu i fynd i'r afael â gordewdra a hyrwyddo disgwyliad oes iach i bawb, gan gynnwys heneiddio'n dda, a lleihau'r bygythiadau i iechyd corfforol a meddyliol a lles. 2. Prosiectau sy'n cynnal ysbryd cymunedol iach trwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli yn yr amgylchedd naturiol a gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Cynlluniau sy'n gwella ac yn datblygu cyfleoedd ar gyfer mynediad a hamdden leol yn y gymuned. 3. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo defnydd cynaliadwy o gefn gwlad ac arfordir gogledd-orllewin Cymru er mwyn gwella iechyd corfforol a meddyliol cymunedau, gan ganolbwyntio ar gael gwared â'r rhwystrau ffisegol a diwylliannol i fynediad. 4. Camau gweithredu sy'n cynnal a chysylltu seilwaith gwyrdd fel modd o gynyddu cysylltedd ecolegol a gwella mynediad cyhoeddus. Gwella llwybrau teithio llesol trwy ddatblygu cyfleoedd cysylltiedig ar gyfer mynediad a hamdden sy'n creu cyswllt â mannau mynediad agored a'r cefn gwlad ehangach.
<p>Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Camau gweithredu sy'n dod o hyd i ddatrysiadau i achosion o ansawdd dŵr ymdrochi gwael lleol ar yr arfordir. 2. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo'r economi gylchol a thwf gwyrdd trwy gydweithrediad, camau gweithredu ataliol a chyfranogiad y cyhoedd er mwyn gwella gwydnwch ac effeithlonrwydd a lleihau defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. 3. Camau gweithredu sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol sy'n ymwneud yn weithredol â'u dyfroedd mewndirol, er enghraifft yn Llyn Padarn, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a chael gwared â'r rhwystrau i gyfranogiad cymunedol mewn dyfroedd mewndirol a'u rheolaeth. 4. Camau gweithredu sy'n cefnogi'r gwaith o wella mannau gwyrdd a glas lleol a gaiff eu gwerthfawrogi a'u defnyddio gan gymunedau lleol. Yn ogystal, mae gwella ardaloedd o werth tirweddol uchel a ystyrir yn gyrchfannau ar gyfer twristiaeth (yn enwedig lle y mae cymunedau'n ymhél yn weithredol) hefyd yn flaenoriaeth. Mae ychwanegu gwerth trwy ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli a gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. 5. Camau gweithredu sy'n targedu camau gweithredu amgylcheddol i wella cymunedau trwy wella ansawdd yr aer, gwella'r mynediad i fannau gwyrdd a glas lleol, a chydabod gwerth ein tirweddau hefyd wella cynnig twristiaeth Cymru ymhellach.

I gael rhagor o wybodaeth am heriau gogledd-orllewin Cymru, cysylltwch ag:

Alun Price

Uwch Swyddog Mynediad Hamdden a Phartneriaeth

Alun.Price@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad 6: Canol De Cymru



Mae ardal Canol De Cymru yn cynnwys siroedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd ac ardaloedd canol de Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau lleol
A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd	<ol style="list-style-type: none">1. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo seilwaith gwyrdd integredig mewn ardaloedd trefol sy'n gwella lles ac yn adeiladu gwydnwch yn wyneb hinsawdd newidiol. Er mwyn mynd i'r afael ag: anghydraddoldebau amgylcheddol, iechyd gwael, cydlyniant cymunedol, llifogydd lleol, ansawdd dŵr, bioamrywiaeth mewn ardaloedd trefol.
B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd	<ol style="list-style-type: none">1. Camau gweithredu sy'n cefnogi ac yn annog partneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ymyriadau ledled dalgylch er mwyn cyflwyno lliaws o fuddion. Er mwyn mynd i'r afael â: cholli bioamrywiaeth a chysylltedd, ansawdd dŵr, perygl llifogydd, mynediad a hamdden, ymglymiad/ymwybyddiaeth gymunedol.
C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles	<ol style="list-style-type: none">1. Camau gweithredu sy'n gweithio gyda chymunedau sydd eisiau defnyddio, rheoli a mwynhau eu hardaloedd lleol er mwyn cael llesiant gwell, a'u cefnogi i wneud hyn. Er mwyn mynd i'r afael â: throstedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (gan gynnwys tipio anghyfreithlon), tloedi tanwydd (ynni adnewyddadwy), tloedi bwyd (tyfu bwyd), iechyd gwael, cydlyniant cymunedol, balchder cymunedol.2. Camau gweithredu sy'n galluogi dull traws-sector o wella iechyd pobl trwy hamdden a'r amgylchedd awyr agored. Er mwyn mynd i'r afael ag: iechyd gwael, anghydraddoldeb cymdeithasol/amgylcheddol, seilwaith hamdden o ansawdd gwael, a balchder ac ymglymiad cymunedol.

Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu

1. Camau gweithredu sy'n troi syniadau'n gamau gweithredu trwy gyfleoedd lleol a rhanbarthol megis datblygiad y ddinas-ranbarth, y metro, Parc Tirwedd y Cymoedd a chyfleoedd eraill. Gellir defnyddio hyn hefyd i feithrin cysylltiadau gwaith cryfach rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r byd academiaidd yng Nghanolbarth De Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am heriau Canol De Cymru, cysylltwch â:

Miki Miyata-Lee, Swyddog Partneriaethau

miki.miyata-lee@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu

Chris Heaps, Swyddog Partneriaethau

chris.heaps@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad 7: De-ddwyrain Cymru



Mae ardal y de-ddwyrain yn cynnwys siroedd Torfaen, Casnewydd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy ac ardaloedd de-ddwyreiniol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau lleol
A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd	<p>1. Camau gweithredu sy'n cyflwyno datrysiadau arloesol i'r broblem o ran ansawdd pridd gwael a'r pwysau ar ansawdd dŵr mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lleihau lefel y ffosffad mewn slyri, slwtsh carthion, gwastraff dofednod a gweddillion treuliad anaerobig cyn iddynt gael eu gwasgaru ar dir • Gwella strwythur pridd • Lleihau lefelau'r ffosffad sy'n mynd i mewn i'r cwrs dŵr o safleoedd trin pecynnau preifat
B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd	<p>1. Camau gweithredu sy'n gweithio gydag amrediad o bartneriaid i gyflawni ymyriadau ledled dalgylch neu dirwedd sy'n cyflwyno lliaws o fuddion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai hyn gynnwys gwella cyflwr cynefinoedd a chysylltedd ardaloedd naturiol ar safleoedd gwarchoddedig a safleoedd o bwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur a rhwng y safleoedd hyn, • cyfleoedd rheoli perygl llifogydd mewn modd naturiol, • creu coetir, • rheoli rhywogaethau goresgynnol estron, • addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, a chymorth penodol ar gyfer cynnal neu adfer stociau eogiaid sydd mewn perygl.
C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles	<p>1. Camau gweithredu i alluogi ac annog cymunedau lleol i ddefnyddio, rheoli a mwynhau eu hardaloedd lleol ar gyfer iechyd, lles a chydlyniant cymunedol. Canolbwyntio'n benodol ar gymunedau difreintiedig a llwybrau teithio llesol.</p>
Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu	<p>1. Camau gweithredu sy'n dod â phartneriaid ynghyd i weithio gyda busnesau er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ecosystem • Gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau maint yr ynni a ddefnyddir • Nodi cyfleoedd a hwyluso'r gwaith o rannu adnoddau rhwng busnesau • Ail-leoli'r gadwyn gyflenwi

I gael rhagor o wybodaeth am heriau de-ddwyrain Cymru, cysylltwch â:

Sarah Coakham, Swyddog Partneriaethau

sarah.coakham@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Sarah Tindal, Swyddog Partneriaethau

sarah.tindal@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad 8: De-orllewin Cymru



Mae ardal y de-orllewin yn cynnwys siroedd Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac ardaloedd gorllewinol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Rydym yn croesawu prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau lleol canlynol:

Heriau haen uchaf	Heriau lleol
<p>A. Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig a lleihau'r risgiau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau rheoli llifogydd mewn modd naturiol. <ol style="list-style-type: none"> a. Cynlluniau rheoli risg llifogydd mewn modd naturiol sy'n gallu rhoi mantais, gan gynnwys creu cynefinoedd, storio carbon, llif gwaelodol uwch, ansawdd dŵr ac amwynderau gwell, ac, wrth gwrs, lleihau llifogydd. Hoffem weld prosiectau i helpu i nodi a hyrwyddo atebion naturiol a allai gael eu cyflwyno ar dir preifat. Yr ardaloedd allweddol a nodir hyd yn hyn yw Llanelli, Port Talbot, Pembre a Chaerfyrddin ond rydym yn croesawu prosiectau yn ardaloedd eraill o dde-orllewin Cymru. b. Hoffem hefyd weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â heriau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n ymwneud ag adlunio arfordiroedd. 2. Camau gweithredu sy'n nodi cyfleoedd i wella arferion rheoli coedwigoedd i fwyafu manteision, e.e. gwelliannau bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, a rheoli risg llifogydd mewn modd naturiol.
<p>B. Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau trwy well rheolaeth o gynefinoedd, bioamrywiaeth a chysylltedd</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Camau gweithredu sy'n gweithio ar y cyd i wella hygyrchedd, cyflwr, gradd a chysylltedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd gwarchoddedig a Gwarchodfeydd Natur Lleol. Dylai prosiectau gynnwys manylion am sut y gallant helpu i gysylltu pobl o ardaloedd o amddifadedd lluosog â'r safleoedd hyn a helpu i fynd i'r afael â phroblemau eithrio cymdeithasol. hyn hefyd gael ei weld fel cyfle i ddatblygu cynefinoedd ar raddfa tirwedd a mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol.

<p>C. Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon trwy wella'r mynediad i'r awyr agored ar gyfer iechyd a lles</p>	<p>1. Camau gweithredu ar raddfeydd amrywiol i nodi darpariaeth, defnydd a gwaith cynnal a chadw manau gwyrdd fel y gall eu cyfraniad-iechyd a llesiant gael ei fwyafu.</p> <p>2. Camau gweithredu sy'n cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol i sicrhau newid mewn ymddygiad, a chynyddu cyfranogiad cyhoeddus a lleol wrth wella a chynnal a chadw amgylchedd o safon fel y gall manteision naturiol gael eu gwireddu.</p>
<p>Ch. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi'r economi a datblygu sgiliau a dysgu</p>	<p>1. Camau gweithredu sy'n hyrwyddo atebion arloesol i ddatblygu arferion amaethyddol mwy cynaliadwy–Gweithio gyda phartion â diddordeb (gan gynnwys grwpiau/y diwydiant pysgota) ar raddfa ddalgylch i ddatblygu atebion cydweithredol ar y cyd.</p> <p>2. Camau gweithredu sy'n mwyafu manteision cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, drwy ddatblygu'r–economy werdd a chylchol, menter gymdeithasol/gymunedol, perchnogaeth y gymuned a thwristiaeth</p>

I gael rhagor o wybodaeth am heriau de-orllewin Cymru, cysylltwch ag:

Aled Davies, Swyddog Partneriaethau

aled.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

neu

Glyn Jones, Swyddog Partneriaethau

glyn.jones@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk